Ministry of Justice

**Arglwydd Timpson**
Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol,
HMP/YOI Parc
Heol Hopcyn John
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 6AP

Cyf MoJ: 120339

3 Ionawr 2025

Annwyl Gadeirydd,

**UNED POBL IFANC HMP/YOI PARC: ADRODDIAD Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM Y CYFNOD 1 MAWRTH 2021 – 31 MAWRTH 2023**

Diolch am eich adroddiad ar yr Uned Pobl Ifanc yn HMP/YOI Parc. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi a'ch cydweithwyr am barhau i gyflawni eich rôl statudol ac am eich arsylwadau defnyddiol am yr Uned, yn enwedig o gofio'r prinder aelodau a fu gennych dros y cyfnod hwn o ddwy flynedd. Diolch hefyd i'r carchar am roi cyfle i mi ymweld â'r Uned Pobl Ifanc yn gynharach y mis hwn, oedd yn brofiad goleuedig ac o werth mawr er mwyn gallu deall y gwaith sy'n digwydd gyda'r bobl ifanc yn ein gofal.

Hoffwn i a'r Arglwydd Ganghellor ddiolch i'r Bwrdd hefyd am gynorthwyo ei hymweliad â HMP Stocken yn gynharach y mis hwn, ac am fy ymweliad ym mis Hydref pan agorais floc llety newydd. Gwerthfawrogwn yn fawr yr hyn a ddysgom o'r ymweliadau gan obeithio y cawsoch chithau fudd ohonynt.

Er nad ydych wedi codi unrhyw bryder penodol ar gyfer fy sylw, dysgais lawer iawn o fod yn gallu darllen yn fanwl am y gwaith effeithiol sy'n cael ei wneud gan yr Uned Pobl Ifanc i gael effaith gadarnhaol ar rai o'r bobl ifanc fwyaf treisgar a heriol yng Nghymru a Lloegr. Roeddwn yn falch o ddeall bod y digwyddiadau treisgar yn parhau i fod yn isel ac wedi lleihau ers y cyfnod blaenorol, gyda llai o ymosodiadau ac achosion pan fu'n rhaid i staff ddefnyddio grym, a llai o wrandawiadau dyfarnu.

Rwy'n croesawu asesiad y Bwrdd bod yr arweinwyr a'r staff yn darparu diwylliant gofalgar a chefnogol sy'n parhau i arloesi a bod ganddynt berthynas ragorol gyda'r plant yn eu gofal. Roedd yn braf iawn deall bod staff yn barod i fynd allan o'u ffordd i helpu a bod y plant eu hunain wedi nodi eu bod yn mwynhau'r cyfarfod wythnosol â'u Swyddog Cymorth y Ddalfa ac yn ymddangos i deimlo bod staff yn ofalgar ohonynt ac yn cymryd diddordeb parod ynddynt.

Rwy'n ymwybodol hefyd bod y cyfnod adrodd wedi parhau i fod yn amser anodd i garchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yn gyffredinol, ac wrth adfer o Covid-19 ar ôl codi'r cyfyngiadau. Gwerthfawrogir felly bod y Bwrdd yn cydnabod bod yr Uned Pobl Ifanc wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y plant allan o'u hystafelloedd yn gyson a chymaint â phosib ac wedi gwella'r amser allan o ystafell yn sylweddol. Roedd yn galonogol deall hefyd bod rhaglen gyfoethogi newydd wedi'i chyflwyno i roi cyfle i blant gael dysgu sgil newydd neu gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a finnau'n hynod ddiolchgar am yr ymroddiad a'r profiad y mae aelodau'r Byrddau Monitro Annibynnol yn ei gyfrannu i'r rôl bwysig a chwaraewch ar draws yr ystâd ac rydym yn

eich gwerthfawrogi chi a'ch tîm yn fawr iawn am eich gwaith caled parhaus ar ran yr Uned Pobl Ifanc yn HMP/YOI Parc.



**Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**